**Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru**
**Cyd-bwyllgor Ymgynghorol Cenedlaethol ar Ystadegau**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 drwy Microsoft Teams**

## Yn bresennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Phillip | Barlow | PB | Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Penfro |
| Lee | Clarke | LC | Cyngor Sir Caerdydd |
| Rachel | Clegg | RC | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Vicki | Doyle | VD | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Janine | Edwards | JE | Cyd-fenter Gwella Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru |
| Lloyd | Fisher | LF | Cyngor Bro Morgannwg |
| Steph | Harries | SH | Llywodraeth Cymru |
| Eleri | James | EJ | Comisiynydd y Gymraeg |
| Bea | Jeffries | BJ | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Steve | King | SK | Cyngor Abertawe |
| Sue | Leake | SL | Llywodraeth Cymru |
| Geraint | Morgan | GM | Cyngor Sir Powys |
| Victoria | Morgan | VM | Cyngor Bro Morgannwg |
| Llio | Owen | LIO | Llywodraeth Cymru |
| Hayley | Randall | HR | Data Cymru |
| Lesley | Rees | LR | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Elaine | Smith | ES | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Helena | Snuggs | HS | Chwaraeon Cymru |
| Jacob | Squires | JS | Llywodraeth Cymru |
| Sam | Sullivan | SS | Data Cymru |
| Megan | Williams | MW | Llywodraeth Cymru |
| Nia | Wyn Vaughan | NWV | Cyngor Gwynedd |

## Siaradwyr

| | | | |
|---|---|---|---|
| Steph | Howarth | SH | Llywodraeth Cymru (Cadeirydd) |
| Martin | Parry | MP | Llywodraeth Cymru |
| Caitlin | Theodorou | CT | Cyngor Sir Ceredigion |
| Steffan | - | S | Cymen (cyfieithydd ar y pryd) |

## Ymddiheuriadau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwyneth | Ayers | GA | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Chris | Clarke | CC | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Brett | Davis | BD | Heddlu De Cymru |
| Karen | Hawkes | KH | Cyngor Sir Ddinbych |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nia | Jones | NJ | Llywodraeth Cymru |
| Nathan | Lester | NL | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Neil | Townsend | NT | Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| Iwan | Wyn Jones | IWJ | Cyngor Gwynedd |

| 1 | **Croeso, Cyflwyniad ac Ymddiheuriadau** – Steph Howarth, Llywodraeth Cymru | Camau gweithredu |
|---|---|---|
| | Croesawodd SH bawb. Gweler yr ymddiheuriadau uchod.<br><br>Mae cyfieithu ar y pryd wedi cael ei ddarparu.<br><br>Nododd SH mai diben y cyfarfod oedd deall am ymgynghoriad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar ddyfodol ystadegau poblogaeth a mudo, a darparu fforwm agored i drafod cynlluniau'r SYG. | |
| **2** | **Trosolwg o'r ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru** – Martin Parry, Llywodraeth Cymru | |
| | Rhoddodd MP gyflwyniad am ymgynghoriad y SYG ar ddyfodol ystadegau poblogaeth a mudo.<br><br>Nododd MP bod Llywodraeth Cymru (LlC) wedi sefydlu grŵp cynghori mewnol i gefnogi ymateb cydlynol LlC i ymgynghoriad y SYG. Ychwanegodd y bydd LlC hefyd yn sefydlu grŵp cynghori allanol anffurfiol, gan y bydd ymateb LlC yn anelu at adlewyrchu barn defnyddwyr ystadegau ehangach Cymru.<br><br>Rhoddodd MP drosolwg lefel uchel o'r amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad, gan nodi y bydd y SYG yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion, sydd i'w ddilyn gan argymhelliad a wneir gan Ystadegydd Cenedlaethol ynghylch dull gweithredu ystadegau poblogaeth a mudo yn y dyfodol. Mae disgwyl i Weinidogion Cymru ymateb i'r argymhelliad hwn, gyda'r penderfyniad a ddylid galw cyfrifiad yn y dyfodol yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU.<br><br>Rhoddodd MP grynodeb o gynigion y SYG a thynnodd sylw at yr ymchwil yr oedd y SYG wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar i gefnogi'r ymgynghoriad.<br><br>Amlygodd MP gyhoeddiad diweddar o'r amcangyfrifon model dynamig o'r boblogaeth newydd ar gyfer canol 2022, a chyhoeddiad astudiaethau achos ar gyfer pum awdurdod lleol ledled Cymru a Lloegr sy'n ceisio dangos yr amcangyfrifon a fyddai ar gael mewn system ystadegol sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol. Nododd MP y byddai Caitlin Theodorou o Gyngor Sir Ceredigion yn rhoi rhywfaint o wybodaeth bellach am hyn, gan fod Ceredigion wedi'i chynnwys fel un o'r pum astudiaeth achos, a bydd yn cynnwys rhai o'i syniadau, yn eitem nesaf yr agenda.<br><br>Tynnodd MP sylw'r mynychwyr hefyd at y cyhoeddiad gan y SYG am ei chynnydd a'i chynlluniau ar gyfer amcangyfrif nodweddion | Ysgrifenyddiaeth i rannu'r sleidiau gyda'r grŵp, yn ogystal â dolenni at ymgynghoriad y SYG a chyhoeddiadau ategol. |

| | | |
|---|---|---|
| | poblogaeth, gan eu cynghori i edrych ar y cyhoeddiad hwn os oeddent yn bwriadu ymateb i'r ymgynghoriad.<br><br>I gloi, gwahoddodd MP y grŵp i rannu eu barn ar gynlluniau'r SYG, a'r goblygiadau posibl ar eu gwaith yn y drafodaeth a gynlluniwyd yn ddiweddarach yn y cyfarfod. | |
| **3** | **Astudiaeth achos Ceredigion** – Caitlin Theodorou, Cyngor Sir Ceredigion | |
| | Rhoddodd CT gyflwyniad am gyfraniad Cyngor Sir Ceredigion i ddatblygu amcangyfrifon model dynamig y boblogaeth gan y SYG, ochr yn ochr â 13 o gynlluniau peilot awdurdodau lleol eraill ledled Cymru a Lloegr.<br><br>Amlinellodd CT y broses ddatblygu a'r ymgysylltiad a gawsant gyda'r SYG drwy gydol iteriadau amrywiol yr amcangyfrifon ers mis Hydref 2022. Amlinellodd hefyd rai o'r gwahaniaethau rhwng gwahanol iteriadau'r amcangyfrifon, yn ogystal â gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon model dynamig o'r boblogaeth ac amcangyfrifon poblogaeth Cyfrifiad 2021 ac amcangyfrifon canol blwyddyn Cyfrifiad 2021.<br><br>Rhannodd CT rai syniadau hefyd am gwmpas anghyflawn posibl yn yr amcangyfrifon model dynamig o'r boblogaeth ar gyfer Ceredigion, sydd o bosibl yn gysylltiedig â'r ffaith bod llai o ffynonellau data gweinyddol ar gael i Gymru nag ar gyfer Lloegr. Nododd fod awdurdodau lleol a oedd yn cymryd rhan yn yr astudiaethau achos wedi rhannu gwybodaeth am faterion eraill a allai fod yn effeithio ar y cymariaethau megis ardaloedd â lefelau uwch o hunangyflogaeth ac anweithgarwch economaidd ac ardaloedd gwledig.<br><br>I gloi, nododd CT rai o fanteision ac anfanteision amcangyfrifon model dynamig o'r boblogaeth ar gyfer Ceredigion, gan ychwanegu y byddai angen gwneud rhagor o waith cyn bod yn hyderus wrth allu cymeradwyo amcangyfrifon model dynamig o'r boblogaeth (yn enwedig oherwydd eu defnydd mewn dyraniadau cyllid). | |
| **4** | **Trafodaeth** | |
| | Diolchodd MP i CT am ei chyflwyniad a dywedodd y byddai'n diweddaru'r SYG ynghylch cwmpas ffynonellau data gweinyddol yn yr amcangyfrifon poblogaeth ddynamig ar gyfer Cymru o'i gymharu â Lloegr.<br><br>Nododd BJ rai nodweddion tebyg rhwng poblogaeth Rhondda Cynon Taf a phoblogaeth Ceredigion o ran poblogaeth myfyrwyr symudol. Mynegodd rywfaint o bryder os nad yw'r amcangyfrifon model dynamig o'r boblogaeth yn amcangyfrif poblogaethau myfyrwyr yn gywir, gan nodi bod rhai anghysondebau yn yr amcangyfrifon blaenorol o'r boblogaeth sy'n ymwneud â myfyrwyr. | MP i siarad â'r SYG i ddeall cwmpas ffynonellau data gweinyddol amcangyfrifon model dynamig o'r boblogaeth ar gyfer Cymru (gan gynnwys unrhyw wahaniaethau â Lloegr). |

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd ES fod y boblogaeth yn Wrecsam yn amrywiol, gyda phocedi o amddifadedd uchel, lefelau cymharol uchel o anweithgarwch economaidd, poblogaethau myfyrwyr a chymunedau ethnig lleiafrifol. Mynegodd bryder ynghylch capasiti amcangyfrifon y boblogaeth ddynamig newydd i fesur y grwpiau hyn o bobl yn gywir, gan fod risg nad ydynt yn ymddangos ar lawer o gofnodion data gweinyddol, os o gwbl. Mynegodd ES bryder pellach mewn perthynas â'r amcangyfrifon ethnigrwydd sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol yn benodol, yn enwedig os yw'n ymddangos eu bod yn tanamcangyfrif nifer y bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, o ystyried eu bod eisoes yn credu bod rhywfaint o gwmpas anghyflawn yn amcangyfrifon y cyfrifiad. Nododd y byddai angen gwneud rhagor o waith i wella cywirdeb yr amcangyfrifon hyn.<br><br>Cytunodd RC â phryderon pawb arall, gan nodi efallai na fydd dull 'un ateb sy'n addas i bawb' ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru â Lloegr. Er enghraifft, ni fyddai'r heriau o amcangyfrif y boblogaeth mewn ardaloedd trefol yn Lloegr yr un fath â rhai o heriau amcangyfrif y boblogaeth mewn ardaloedd gwledig fel Sir Gaerfyrddin a Sir Ceredigion. Nododd y byddai rhai o'r problemau gydag amcangyfrifon y boblogaeth ddynamig yng Ngheredigion yn debyg yn Sir Gaerfyrddin, o ystyried eu proffiliau poblogaeth tebyg.<br><br>Mynegodd GM rhywfaint o bryder am ansawdd a chywirdeb rhai o ddata Cyfrifiad 2021, a nododd anawsterau meincnodi ac ail-raddnodi amcangyfrifon poblogaeth ac amcangyfrifon sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol yn y dyfodol pe na bai cyfrifiad yn digwydd, er gwaethaf gwelliannau diweddar yn rhai o'r amcangyfrifon a gyhoeddwyd gan y SYG.<br><br>Nododd RC fod angen i ddefnyddwyr fod â hyder yn y system newydd sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol, gan nodi bod angen gallu mynegi'r fethodoleg a'i deall yn glir, yn dilyn profiadau tebyg wrth geisio deall sut roedd data Cyfrifiad 2021 yn wahanol i Gyfrifiad 2011 ar gyfer Sir Gaerfyrddin.<br><br>Awgrymodd BJ efallai y bydd y SYG am barhau â'r cyfrifiad fel ei phrif gasgliad data, gan fod rhai heriau i ddefnyddio casgliadau data eilaidd, h.y. defnyddio data gweinyddol a gesglir gan sefydliadau eraill. Soniodd am y posibilrwydd o gyfrifiad byrrach, sy'n canolbwyntio ar bynciau penodol, fel y gellir ei ddefnyddio i feincnodi'r amcangyfrifon sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol yn y dyfodol.<br><br>Nododd JE fod heriau gydag amcangyfrifon y cyfrifiad ac amcangyfrifon sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol, ond nododd hefyd y manteision o allu cymharu'r ddwy set o amcangyfrifon at ddibenion ansawdd. Ychwanegodd mai dim ond un set o amcangyfrifon fyddai'n darparu rhai heriau wrth asesu ansawdd yr amcangyfrifon hynny. Nododd bwysigrwydd amcangyfrifon poblogaeth o ansawdd uchel gan eu bod yn cael eu defnyddio at ddibenion cyllido. Nododd hefyd fanteision data'r cyfrifiad o ran gallu deall nodweddion poblogaeth, gan ddarparu data gronynnog nad yw ar gael mewn man arall. Nododd JE fod cwmpas setiau | |

| | | |
|---|---|---|
| | data gweinyddol yn amrywio, felly byddai rhai pryderon y byddent yn cymharu nodweddion gwahanol setiau o bobl, o'i gymharu â'r cyfrifiad. Nododd JE hefyd fod y cyfrifiad wedi'i ddatganoli i'r Alban a gofynnodd a fyddai Cymru yn gallu cynnal ei chyfrifiad ei hun yn y dyfodol.<br><br>Ymatebodd SH gan nodi bod y gweinyddiaethau datganoledig eraill yn ystyried dyfodol ystadegau poblogaeth a mudo yn eu hardaloedd, gan gynnwys y rôl y gallai'r cyfrifiad ei chwarae mewn system ystadegau yn y dyfodol. Nododd SH fod rhywfaint o ddata sydd ond ar gael gan y cyfrifiad ar hyn o bryd ac nad ydynt ar gael mewn llawer o ffynonellau data gweinyddol, megis cyfeiriadedd rhywiol a data ar allu'r Gymraeg.<br><br>Cytunodd ES, gan nodi y byddai peidio â chael cyfrifiad yn y dyfodol yn arwain at ddiffyg data gronynnog ar gyfer ardaloedd bach, gan nodi enghraifft o angen deall sut mae gallu yn y Gymraeg yn amrywio mewn ardaloedd bach ar draws Wrecsam.<br><br>Nododd SK ei fod yn cytuno gyda'r holl bwyntiau a godwyd hyd yn hyn. Soniodd ei fod wedi mynychu seminar a gynhaliwyd gan y SYG y diwrnod cynt am yr ymgynghoriad. Mynegodd rhywfaint o bryder ei bod yn ymddangos bod cynnydd cyfyngedig wedi bod mewn rhai meysydd ers i'r SYG ymgynghori ddiwethaf am ddyfodol y cyfrifiad yn dilyn Cyfrifiad 2011. Nododd hefyd ei fod yn credu bod y rhan fwyaf o'r ffocws ar ddata gweinyddol, ac nid cymaint ar ba rôl y gallai data arolwg ei chwarae mewn dulliau o ymdrin ag ystadegau poblogaeth a mudo yn y dyfodol. Ychwanegodd SK ei fod yn credu ei bod yn teimlo'n gynamserol i wneud penderfyniad posibl am beidio â chael cyfrifiad arall mor fuan.<br><br>Holodd SS a oes gan y SYG unrhyw gynlluniau i archwilio data o ffynonellau nad ydynt yn y sector cyhoeddus, a p'un a yw'n debygol y gellid gofyn i gyrff y sector cyhoeddus gasglu data (neu addasu eu casgliadau data) ar ran y SYG. | |
| **4** | **Unrhyw Fater Arall a Chloi** – Stephanie Howarth, Llywodraeth Cymru | |
| | Diolchodd SH i bawb am fod yn bresennol ac am y drafodaeth agored. Ychwanegodd y byddai Llywodraeth Cymru yn llunio ei hymateb i'r ymgynghoriad dros fisoedd yr haf, ac y bydden nhw'n hapus i glywed gan gydweithwyr am eu cynlluniau i ymateb i'r ymgynghoriad. | |